Tendr Gwefannau
Chwefror 2020

Gwahoddiad i dendro

Dylunio, gweinyddu, cefnogi a chynnal gwefannau

Mae Mentrau Iaith Cymru yn chwilio am gwmni i ddylunio, gweinyddu, cynnal a chynnig cefnogaeth ar gyfer dwy wefan. Mae'r tendr hwn ar gyfer 2 ddarn o waith, nodir isod:

Rhan 1 – Gwefan Papurau Bro

Mae Mentrau Iaith Cymru yn gweinyddu grant ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer y Papurau Bro ac yn edrych sut orau i'w cefnogi. Yn dilyn ymatebion gan bwyllgorau'r papurau, maent oll yn awyddus i gael gwefan sy'n adlewyrchu beth yw papur bro, sydd yn cyfeirio'r cyhoedd at eu papur lleol, a hefyd yn fan i bwyllgorau'r papurau rannu gwybodaeth a deunyddiau defnyddiol. Rydym yn chwilio am gwmni i ddylunio, gweinyddu, cefnogi a chynnal gwefan ar gyfer diwallu'r anghenion hyn.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Creu gwefan newydd cenedlaethol ar gyfer y Papurau bro
    - I fod yn gwbl ddwyieithog
    - I gynnwys mewnrwyd
    - I gynnwys map rhyngweithiol
    - I gynnwys newyddion RSS o wefannau unigol y Papurau Bro
    - I gynnwys stafell sgwrsio (*chat room*)
- Creu parth newydd www.papuraubro.cymru
- Cynnal (hosting) y wefan www.papuraubro.cymru
- System reoli cynnwys ble gall staff MIC gael mynediad i reoli cynnwys y wefan a gweithredu unrhyw newidiadau bychain i ddyluniad a strwythur y wefan
- Cymorth a chefnogaeth os oes unrhyw broblemau yn codi gyda'r wefan
- Sicrhau bod y thema ar gael i unrhyw fentrau eraill allu ei defnyddio
- (ni fyddwn yn gofyn am system rheoli e-bost ac e-flychau)

Rhan 2 – Gwefan Mentrau Iaith Cymru

Mae gwefan www.mentrauiaith.cymru yn blatfform cenedlaethol ar gyfer y Mentrau Iaith sy'n darparu gwybodaeth gyffredinol am waith, newyddion a swyddi'r mentrau. Dyma hefyd gartref Mentrau Iaith Cymru (MIC), endid ymbarél sy'n cefnogi a hyrwyddo'r Mentrau Iaith. Mae'r wefan felly yn cynnwys mewnrwyd ar gyfer staff rhwydwaith y Mentrau Iaith, wedi ei reoli gan MIC, sy'n cynnwys system storio dogfennau, lluniau a mwy.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Dylunio thema newydd ar gyfer y wefan sy'n adlewyrchu brand Mentrau Iaith ac wedi selio ar adeiladwaith bresennol gwefan www.mentrauiaith.cymru
    - I fod yn gwbl ddwyieithog
    - I gynnwys mewnrwyd
    - I gynnwys map rhyngweithiol
    - I gynnwys adran newyddion
- Cynnal (hosting) y wefan www.mentrauiaith.cymru
- System reoli cynnwys ble gall staff MIC gael mynediad i reoli cynnwys y wefan a gweithredu unrhyw newidiadau bychain i ddyluniad a strwythur y wefan
- Cymorth a chefnogaeth os oes unrhyw broblemau yn codi gyda'r wefan
- Sicrhau bod y thema ar gael i unrhyw fentrau eraill allu ei defnyddio

- (ni fyddwn yn gofyn am system rheoli e-bost ac e-flychau)

Bydd y cytundeb yn un barhaus, a disgwylir i'r cwmni llwyddiannus fod ar gael yn ystod oriau swyddfa i gynnig cefnogaeth drwy'r Gymraeg pan fo'r angen.

Cyflwyno pris:

Os oes gennych ddiddordeb i gyflawni'r gwaith uchod, gofynnir i chi gyflwyno pris am y gwaith **ar wahân ar gyfer y 2 ran wahanol** gan nodi'r teitlau 'Gwefan Papurau Bro' a 'Gwefan MIC' gan nodi'r costau cychwynnol a'r costau parhaus gan gynnwys TAW os yn berthnasol. Bydd angen i chi nodi cefndir a phrofiad eich cwmni gydag enghreifftiau diweddar o'ch gwaith, nodwch eich gallu i weithio drwy'r Gymraeg, a nodwch os ydy'ch cwmni wedi cofrestru ar gyfer TAW. Rydym yn bwriadu cynnig y 2 ran o'r gwaith i'r un cwmni felly bydd angen i chi ystyried hyn wrth ymateb i'r cais.

E-bostiwch y manylion uchod at Gydlynydd Marchnata a Chyfathrebu MIC, Marged Rhys drwy e-bost i marged@mentrauiaith.cymru a hynny **erbyn 12pm, dydd Llun 2il o Fawrth, 2020.**

Gobeithiwn hysbysu'r cwmni llwyddiannus erbyn 16/03/2020

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r swyddfa ar (01492 643401) neu e bostio Marged ar marged@mentrauiaith.cymru